

O BRESWYLFYDD I DŶ

PREIFAT



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Bywyd Campws
Campus Life



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Estates and Campus Services
Ystadau a Gwasanaethau Campws



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council



SOUTH WALES
POLICE
HEDDLU
DE CYMRU




RECYCLING

Pam ailgylchu?

Mae ailgylchu'n dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn cadw adnoddau gwerthfawr.



Mae ailgylchu'n galluogi Abertawe i fodloni targedau cynyddol Llywodraeth Cymru a chadw Cymru ar frig y tabl.



Bydd ailgylchu eich gwastraff yn y ffordd gywir yn atal strydoedd anniben, yn cadw cymdogion yn hapus ac yn sicrhau nad ydych chi'n cael dirwy!



GET IT SORTED! SORTWCH E'!



Paper & Cardboard together

SEPARATE BAGS



Metal, Glass & Foil together



Plastic pots, tubs, trays & bottles



MAX
3 BAGS



Food Waste

Os byddwch chi'n ailgylchu eich gwastraff yn y ffordd anghywir, ni chaiff eich bagiau eu casglu.

Os bydd hynny'n digwydd, symudwch nhw o ymyl y ffordd i'w storio a'u didoli'n gywir yn barod ar gyfer y casgliad nesaf. Os byddan nhw'n dal i fod ar ymyl y ffordd ar ôl y diwrnod casglu, gallen nhw gael eu clirio gan y tîm glanhau strydoedd a gallech gael dirwy gwerth £100.

LLYGREDD SŴN

Rheoli lefel y sŵn: Dylech fod yn ystyriol o lefel y sŵn er mwyn cynnal amgylchedd cyd-fyw heddychlon.



Ymddygiad mewn cynullïadau cymdeithasol: Dylech gynllunio cynullïadau'n ofalus, gan ystyried yr effaith ar breswylwyr cyfagos a sefydlu oriau tawel priodol.

Dychwelyd yn dawel: Dychwelwch yn dawel i'ch preswylfa'n hwyr y nos, gan leihau sŵn a tharfu cyn lleied â phosib ar eich cyd-breswylwyr.




Cysylltiadau cymunedol: Cyflwynwch eich hun i'ch cymdogion, gan hyrwyddo awyrgylch croesawgar lle maen nhw'n teimlo'n gyffyrddus yn dod i siarad â chi os bydd pryderon cyn symud ymlaen at gwynion ffurfiol.

Cofiwch fod synau'n rhy uchel os nad ydych yn gallu siarad â rhywun sydd ddau fetr i ffwrdd heb weiddi.

Sut gallwch chi atal gormod o sŵn yn dod o'ch cartref?

1. Peidiwch â rhoi seinyddion ar y waliau
2. Gwnewch yn siŵr y gallwch glywed cloch y drws dros y gerddoriaeth neu'r teledu
3. Cadwch y lefelau sain yn isel yn hwyr y nos
4. Dywedwch wrth eich cymdogion os byddwch chi'n cael parti
5. Peidiwch â defnyddio eich peiriant golchi dillad na'ch sychwr yn hwyr y nos
6. Os ydych yn dychwelyd ar ôl bod allan yn hwyr, cadwch y lefelau sŵn yn isel - caewch ddrwsau'r car yn dawel a siaradwch yn dawel
7. Yn bennaf oll, byddwch yn rhesymol pan fydd cymydog yn dod atoch chi gyda phroblem



Os byddwch chi'n gwneud gormod o sŵn ac yn cael eich erlyn, mae gan y cyngor y pŵer i waredu'r holl gyfarpar a allai gyfrannu at y niwsans. Mae hyn yn cynnwys setiau teledu, chwaraewyr DVD a Blu-ray, stereos, radios, gemau cyfrifiaduron a chyfrifiaduron. Os byddwch yn euog o'r niwsans, gallai'r cyngor gyflwyno cais i gadw'r eitemau hyn. Bydd gennych gofnod troseddol hefyd.

TAI MYFYRWYR



Yr hyn i'w ddisgwyl gan eich landlord:

- Dylech gael contract deiliadaeth ysgrifenedig, os nad oes gennych un, siaradwch â'ch swyddog llety myfyrwyr yn y Brifysgol
- Gwiriwch fod gan eich eiddo drwydded HMO (tai amlfeddiannaeth).
- Gallwch wirio bod eich eiddo wedi'i drwyddedu drwy edrych ar y gofrestr gyhoeddus ar wefan Cyngor Abertawe. Os nad oes ganddo drwydded, gallwch gysylltu â ni drwy e-bostio hph@abertawe.gov.uk
- Dylech gysylltu â'ch landlord neu'ch asiant gosod i ddechrau os oes gennych unrhyw broblemau o ran y tŷ megis boeler neu gwcer sydd wedi torri, dadfeilio neu leithder. Dylech roi gwybod am y broblem yn ysgrifenedig neu ar WhatsApp neu drwy e-bost, gan roi amser iddynt fynd i'r afael â'ch pryderon.
- Os na fydd y broblem yn cael ei datrys, gallwch ein e-bostio ni ar hph@abertawe.gov.uk

Rhagofalon tân

Mae peryglon tân mewn HMO yn llawer gwaeth na thŷ arferol felly rhaid i landlordiaid gymryd mwy o ragofalon yn erbyn tân fel darparu synwryddion mwg a gwres trydanol, drysau atal tân ac offer diffodd tân.

Mae'n bwysig eich bod yn gwacáu'r eiddo cyn gynted â phosib os bydd tân.

Dylech bob amser gadw'r drws tân ar gau.

Mae drysau tân yn gallu cyfyngu tân i ardal benodol ond hefyd ei rwystro rhag ymledu i ardaloedd eraill.

Drwy gau'r drws tân, rydych yn helpu i atal y tân rhag cyrraedd ardaloedd eraill yr adeilad gan leihau effaith gyffredinol y tân a helpu i gynnal llwybrau dianc clir drwy atal ymlediad y tân a'r mwg i'r grisiau, coridorau a llwybrau dianc eraill. Mae hyn yn sicrhau bod y llwybrau dianc yn hygyrch ac y gellir eu defnyddio yn ystod argyfyngau.

Ardal lle roedd y drws tân ar agor



Ardal lle roedd y drws tân ar gau



Beth y disgwylir gennych chi

- Datganiad dealltwriaeth
- Ailgylchu a Gwastraff
- Gofalu am yr eiddo a rhagofalon tân
- Ystyried cymdogion
- Atal lleithder a llwydni



3 pheth i beidio â gwneud

1. Peidiwch â gadael i'r sbwriel bentyrru

Yn ogystal â chreu amgylchedd anniben, bydd sbwriel sy'n cronni'n gyrchfan ar gyfer plâu sy'n cludo clefydau megis llygod mawr.



2. Peidiwch â cheisio

trwsio gosodiadau trydanol sydd wedi torri eich hun; yn hytrach, rhowch wybod amdano i'ch landlord er mwyn ei gynnal a'i gadw a'i drwsio yn y ffordd gywir.



3. Peidiwch ag anghofio am eich ailgylchu

Does dim terfyn ar sawl sach y gallwch ei hailgylchu, felly gwnewch yn fawr o'r cyfle hwn i ailgylchu gymaint â phosib.



YOUR UNIVERSITY POLICING TEAM



•PC Emma Warner-Brindley
07791 970 376



@EmmaUniCop

•PCSO Mel Dix
07469908004

•PCSO Clive Dainton
07805301691



SNPTUniversityLiaisonTeam@south-wales.police.uk



EICH TÎM PLISMONA YN Y BRIFYSGOL



Pan fydd person wedi;
ymddwyn mewn ffordd sydd
wedi achosi neu sy'n debygol
o achosi aflonyddwch, gofid
neu straen i un neu fwy o bobl
nad ydynt o'r un aelwyd â
nhw.

Mae'r math hwn o ymddygiad yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol, ymddygiad afreolus ac wedi meddwi, tipio sbwriel yn anghyfreithlon, iaith fygythiol ac enllibus, trais domestig a sawl math arall o ymddygiad sy'n atal eraill rhag mwynhau bywyd o ddydd i ddydd.

Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gynnwys:

- Aflonyddu: troseddau casineb, bygwth, cam-drin ar lafar
- Sŵn: Anifeiliaid, ceir, larymau tai, setiau teledu, stereo, gemio
- Tân gwyllt
- Partïon a cherddoriaeth uchel
- Parcïo: ceir wedi'u gadael, atalfeydd, parcïo peryglus
- Niwsans: cynullïadau, fandaliaeth, aflonyddu, defnyddio a masnachu mewn sylweddau anghyfreithlon megis cyffuriau



BLE BYNNAG YR YDYCH

MAE CYMORTH AR GAEL

Gall bywyd fod yn anodd, ond does dim rhaid i chi ei wynebu ar eich pen eich hun. Ar draws Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mae ystod eang o wasanaethau cymorth ar gael i'ch helpu. Isod fe welwch rai o'r gwasanaethau sydd ar gael i chi:



Togetherall

Mae gan bob myfyriwr fynediad at wasanaeth cefnogol ar-lein 24/7 am ddim o'r enw Togetherall. Gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost yn y Brifysgol, gallwch gael mynediad yn ddiennw at gymorth 24/7 gyda chlinigwyr hyfforddedig ar-lein, yn ogystal ag ystod o offer ac adnoddau defnyddiol. Mae'n lle diogel ar-lein i gael pethau oddi ar eich brest, cael sgyrsiau, mynegi eich hun yn greadigol a dysgu sut i reoli eich iechyd meddwl.

PRIFYSGOL ABERTAW



Y Gwasanaeth Gwrando

Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i bob myfyriwr a staff. Mae'n cynnig clust wrando ar bwy bynnag sydd ei angen ac mae'n gwbl gyfrinachol. Nid oes angen unrhyw broblem benodol, weithiau mae'n dda siarad yn unig.



Y Tim Lles

Mae Gwasanaeth Lles Prifysgol Abertawe yn darparu arweiniad a chymorth iechyd meddwl i fyfyrwyr; mae hyn yn cynnwys cymorth un i un gydag ymarferwyr iechyd meddwl, mentoriaid a chwnselwyr, ac adnoddau a chysiau hunangymorth.



Tim Diogelwch / Safezone App

Mae tim diogelwch Prifysgol Abertawe ar gael ar y campws 24/7. Os ydych chi'n teimlo bod angen i chi siarad â nhw, mewn argyfwng, gellir cysylltu â nhw ar 01792 604 271 neu drwy'r ap SafeZone.

PCYDDS



Cymorth Lles

Os ydych yn cael trafferth rheoli effaith eich iechyd ar eich astudiaethau, gallwch gael gafael ar gymorth arbenigol i'ch helpu. Mae hyn yn cynnwys Cwnsela, Cyngor Llesiant, Mentora Iechyd Meddwl Arbenigol, a chymorth i gael mynediad at wasanaethau allanol.



Canllawiau Cadw'n Ddiogel

Mae dod i'r brifysgol yn gyfle i fod yn annibynnol, gwneud ffrindiau newydd a rhoi cynnig ar rywbeth gwahanol. Mae hefyd yn amser lle byddwch yn fwy cyfrifol amdanoch chi'ch hun a'r bobl o'ch cwmpas. Beth bynnag y bo, defnyddiwch ein canllawiau i'ch helpu i gadw'n ddiogel

Cymorth sydd ar gael ym Mhrifysgol Abertawe



Cymorth sydd ar gael yn PCYDDS



CYMORTH ALLANOL

Ar gael i chi -

- Papyrus
- Mind
- C.A.L.M
- Samaritans

TEITHIO I FYFYRWYR

Beicio

Mae myfyrwyr sy'n beicio'n elwa o'r canlynol:

- Marcio beiciau am ddim (cofrestr beiciau)
 - Goleuadau a chloeon am ddim
 - Hyfforddiant beicio am ddim
- Sesiynau cynnal a chadw beiciau am ddim
- Gwiriad am ddim gan Dr Bike yn un o'n 8 sioe deithiol y flwyddyn
- Gostyngiadau mewn siopau beiciau gyda 15% yn Cycle solutions!
- Aelodaeth llogi beiciau Santander am ddim.



Mae isadeiledd beicio Abertawe'n datblygu drwy'r amser.

Mae beicio i'n campysau ac oddi yno'n ffordd hwylus a chyfleus i gael lles corfforol a meddwl iach.

Mae'r llwybr beicio coch yn cysylltu ein dau gampws, gydag amser beicio o oddeutu 27 munud o gampws i gampws.

NEW!

Ydych chi'n barod am ddiweddariad cyffrous ym mis Awst hwn wrth i ni ail-wampio ein cynllun llogi beiciau gyda beiciau newydd sbon yn rhan o fenter y Brifysgol. Cadwa lygad am ragor o fanylion!

Y TÎM CYSWLLT CYMUNEDOL

Mae myfyrwyr Abertawe hefyd yn breswylwyr eu cymunedau lleol. Mae Cymuned@BywydCampws yn hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol rhwng myfyrwyr a'r gymuned leol.

Steph Standen

Swyddog Cysylltu â'r
Gymuned



Iestyn Dallimore

Cynorthwy-ydd Marchnata
a Gwerthuso

Gosia Balcerzak

Cynorthwy-ydd Cysylltu â'r
Gymuned



community.campuslife@swansea.ac.uk

O BRESWYL I BREIFAT RHESTR WIRIO



Cyn symud:

- Gwiriwch ddiwrnodau casglu sbwriel
- Ymglyfarwyddwch â'r canllawiau ailgylchu
- Gwiriwch a oes angen yswiriant arnoch ar gyfer eich eiddo
- Darllenwch drwy eich cytundeb tenantiaeth
- Ystyriwch pwy sydd angen gwybod eich cyfeiriad diweddaraf (banc ayyb)
- Cofrestrwch eich cyfeiriad tymor gyda MyUniHub
- Lluniwch restr o gysylltiadau brys gan gynnwys eich landlord
- Creu cyllideb ar gyfer treuliau misol e.e. biliau, rhent, siopa
- Lluniwch restr o gysylltiadau brys gan gynnwys eich landlord

Dewch i adnabod eich ardal leol:

- Dysgwch am fentrau lleol a grwpiau cymunedol
- Dewch o hyd i siop elusen leol - cyfrannwch eitemau nad ydych eu heisiau neu dewch o hyd i fargen
- Darganfyddwch ble mae eich siop agosaf ar gyfer siopa

Pan fyddwch chi'n symud i mewn:

- Cyflwynwch eich hun i'ch cymdogn newydd
- Gwneud cais am eithriad rhag y dreth gyngor (os oes angen)
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble mae eich blaendal yn cael ei gadw
- Os ydych chi'n talu tâl cadw dros yr haf, edrychwch a ydych chi'n cael aros yn yr eiddo
- Sicrhewch fod pob un o'r uchod wedi'i ddiogelu'n ysgrifenedig!
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pwy sy'n talu biliau
- Gwiriwch eich llety a rhowch wybod am unrhyw anghysondebau. Tynnwch luniau!
- Cyflwyno a nodi eich darlenniadau mesurydd
- Trefnwch Wi-Fi ar gyfer y tŷ, nid yw hyn bob amser yn cael ei gynnwys!
- Gwiriwch Rwydwaith UniBws i gynllunio teithio i/o'r campws
- Cofrestrwch i bleidleisio a sicrhewch fod gennych ffurf ddilys o ID



DYFARNIAD CYMDOGOL

Mae Cymuned@BywydCampws yn cynnal y Dyfarniad Cymdogol ar gyfer myfyrwyr a enwebwyd gan breswylwyr Abertawe am eu cyfraniad at y gymuned a'u hymddygiad cymdogol rhagorol. Mae Prifysgol Abertawe'n ceisio annog myfyrwyr i fod yn aelodau gwerthfawr o gymdeithas a hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol yn y gymuned. Yn anad dim, dylet ti drin dy gymdogion yn yr un modd ag yr hoffet ti gael dy drin dy hun.

Wyt ti'n ystyried y pwyntiau isod wrth fyw yn dy gymuned?
Os felly, gelli di ennill rhodd gan y Brifysgol i ddiolch i ti.



Dylet ti ddod i adnabod dy gymdogion

Dylet ti fod yn ymwybodol ac yn ystyriol o dy sŵn ddydd a nos



Dylet ti drefnu a gwaredu dy wastraff yn briodol ac yn gyfrifol

Dylet ti gyfrannu at dy gymuned

